

**COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED BRO CERNYW**  
**RHAGFYR 13<sup>EG</sup> 2023 AM 7:30YH**  
**CYNHALIWDY YM MHANDY TUDUR**

**1 CROESO AC YMDDIHEURIADAU**

**1.1** Croesawyd pawb gan Clwyd Roberts (CR)

**1.2** Presennol: Einir Williams (EW), Jane Roberts (JR), Ann Vaughan (AV), Diane Roberts (DR), Mark Davies (MD), Sara Thomas (ST,) & Catrin Griffiths (Clerc, CWG)

**1.3** Ymddiheuriadau: Myrddin Davies (MGD), Euros Williams (EUW), Gwydion Jones (GJ) & Austin Roberts (AR)

**2 DATGANIAD DIDDORDEB**

Dim datganiad.

**3 COFNODION TACHWEDD 29<sup>AIN</sup> 2023 I'W GWIRIO**

Cynigwyd yn gywir gan AV ac eilwyd gan MD .

**4 MATERION YN CODI**

**4.1** AV yn sôn fod angen rhoi bylbiau yn y twb blodau yn fynwent Llangernyw a bod angen bylbiau yn y tybiau blodau eraill hefyd. Dywedodd fod hyn er mwyn i'r pentref edrych yn hardd ar gyfer y trigolion a thwristiaid. DR yn sôn ei bod wedi plannu bylbiau yn y tybiau eraill gyda phlant yr ardal ond bod un yn fudr ac nid oedd eisiau i'r plant ei gyffwrdd. JR yn awgrymu rhoi blodau gwyllt yn y tybiau blodau ond roedd eraill yn teimlo ei bod bach yn hwyr i blannu erbyn hyn a phenderfynwyd ei adael hyd nes y gwanwyn.

**4.2** Cyfraniad at adroddiad blynyddol Un Llais angen ei gwblhau erbyn 20.12.23. Penderfynwyd i CWG ateb yr holiadur ar ran pawb.

**4.3** Bydd y pwyllgor mynwentydd nesaf yn cael ei gynnal ar 17.1.24 am 7:30 yn Llangernyw gyda'r cynghorwyr MD, CR, EUW AV.

**5 MATERION CYNGOR**

Dim

**6 ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR**

Roedd AR wedi ymddiheuro o flaen llaw na fyddai yn bresennol yn y cyfarfod. Trafodwyd y datganiad diweddar yn y wasg ac roedd y Cynghorwyr yn llwyr gefnogi AR. Er nad oedd yn bresennol i allu siarad roeddynt eisiau mynegi eu gwerthfawrogiad o'r holl waith y mae wedi ei wneud ar ran y Gymuned a'i fod bob tro yn cyflawni'r hyn a ofynnir ohono heb orfod gofyn dwywaith. Mae'r Cynghorwyr oll yn gefnogol iawn ohono ac yn ddiolchgar iawn hefyd.

**7 MATERION ARIANNOL**

**7.1** Praesept 2024/25 - Rhannwyd y daenlen cyfrifon i bawb ar e-bost o flaen llaw a chytunwyd ar y praesept ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Roedd amcangyfrif y cyfanswm gwariant yn dod i £18,226. Penderfynwyd cyfrannu £8,000 o falans y Cyngor Cymuned ac felly i ofyn am £10,226 gan y praesept.

**7.2** Taenlen cyfrifon - chwarter 3 - trafodwyd y cyfrifon fel rhan o'r praesept.

**7.3** Hysbysiad taliad praesept Rhagfyr 2023 - £5363

**7.4** Prisiau am y gwaith mynwent Llangernyw - cafwyd prisiau gan Kevin Roberts a Dei Evans. Roedd pawb yn cytuno i ofyn i Kevin ymgymryd â'r gwaith ac i ofyn i Kevin wneud yr ail opsiwn ar y pris.

## **8 GOHEBIAETH**

Mae'r isod wedi eu gyrru i bob cynghorydd er gwybodaeth ar e-bost:

**8.1** Bil Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru)

**8.2** Cynhadledd Gwobrau Cenedlaethol Un Llais Cymru 2024

**8.3** Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol - Chwefror 2024 - Dyddiad cau wedi ymestyn i Ragfyr 20<sup>fed</sup> - CWG i'w lenwi

**8.4** Nodi Asedau Hanesyddol o Ddiddordeb Lleol Arbennig

**8.5** Cronfa Cyfle i Bawb Yr Urdd - penderfynwyd peidio cyfrannu

**8.6** Holiadur ar argyfwng costau byw gan Un Llais - CWG wedi ei gwblhau

## **8 BILIAU**

**8.1** Bil cyfieithu Enlli ar gyfer mis Tachwedd - £95

Cytunwyd i'w dalu.

## **9 MATERION LLEOL**

**DR** - Wrthi'n gwneud gwaith i atgyweirio ffordd Ty'n Pistyll a bydd ar gau iddynt wneud y gwaith.

**MD** - Mae'r bin halen wedi ei lenwi. DR yn atgoffa fod hawl gan drigolion Parc Aelas a Fedwen Arian i fynd i finiau eraill yn y pentref i nôl halen.

**JR** - Dywedodd fod y cwmni bysiau Rhandir wedi cysylltu â hi gan fod allt Cefn Coch yn beryglus adeg rhew a gan eu bod yn cario 20 o blant mae'n gwrthod mynd a nhw pan mae'r tywydd yn ddrwg. Mae'n ffordd B ond yn ffordd brysur yn y bore a nos a ddim yn cael ei graeanu o gwbl. CR yn dweud ei fod yn ffordd ar gyfer tacsï ysgol ac felly dylai ei fod yn cael ei graeanu. DR yn dweud mai'r cyfarwyddyd y llynedd oedd defnyddio'r ffordd heibio Garej Wanklyn ond gan ei bod yn cario plant yna nid yw hyn yn opsiwn iddi. MD yn dweud fod y ffordd o Langernyw i Lansannan yn ffordd B ac yn cael ei graeanu.

**AV** - Allt Cwm Canol - mae'r twll archwilio wedi llenwi a llawer o ddŵr a dail ar y ffordd. Fe wnaeth EW godi gydag AR y mis diwethaf. Hefyd, soniodd fod Mrs Menna Williams, Dalar Deg wedi dweud fod dŵr yn hel yno. Cytunodd MD i fynd i edrych arno. Nododd nad oedd ganddi ddim band llydan ers peth amser gyda'r gwaith ffordd yn effeithio ac mae wedi cysylltu gyda Darren Millar ynglŷn â hyn.

## **10 CYFARFOD NESAF**

Ionawr 31<sup>ain</sup> 2024 yng Nghanolfan Bro Cernyw.

Cyfarfod yn dod i ben am 9:35.

Cymerwyd y cofnodion gan CWG.